
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 996 (Cy. 232)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau
Apelau Derbyn) (Cymru)
(Coronafeirws) (Diwygio)
(Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Diwygiodd Rheoliadau 2020 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws,—

- (a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, a
- (b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Mae rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 yn darparu bod y diwygiadau hynny yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020.

Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 30 Medi 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2022. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 996 (Cy. 232)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau
Apelau Derbyn) (Cymru)
(Coronafeirws) (Diwygio)
(Diwygio) 2021**

<i>Gwnaed</i>		<i>6 Medi 2021</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 8 Medi 2021</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>29 Medi 2021</i>

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 29 Medi 2021.

-
- (1) 1998 p. 31; gweler adran 142(1) am y diffiniadau o "the Assembly", "prescribed" a "Regulations". Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 94, a mewnosodwyd is-adran (5A) yn adran 94, gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 95, a mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 95, gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2)(a), yn lle “30 Medi 2021” rhodder “30 Medi 2022”.

(3) Yn rheoliad 2(2), yn lle “30 Medi 2021” rhodder “30 Medi 2022”.

(4) Yn rheoliad 4(a), yn lle “1 Hydref 2021” rhodder “1 Hydref 2022”.

(5) Yn rheoliad 4(b), yn lle “30 Medi 2021” rhodder “30 Medi 2022”.

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion
Cymru

6 Medi 2021

(1) O.S. 2020/479 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1606 (Cy. 333).